# LLETY

## Canllaw i Ymgeiswyr

# Abertawe



WHATUNI? STUDENT CHOICE Awards 2020
WINNER ACCOMMODATION

**Llety Arobryn**

1af yn y DU
- Gwobrau Whatuni
Student Choice 2020

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David



> Hoffwn ddiolch yn fawr i chi am ddarparu llety ardderchog ar fy nghyfer i fel myfyriwr, a gwasanaeth gwych gennych chi a'r holl staff dan sylw.
>
> **Myfyriwr BA Addysg Awyr Agored**

## CYSYLLTWCH Â NI...

**Y Swyddfa Llety:**
Mae gennym wybodaeth am opsiynau llety i fyfyrwyr ar ein gwefan ac am unrhyw wybodaeth bellach cysylltwch â'r Swyddfa Llety:

**E-bost:**
**accommodation@uwtsd.ac.uk**

**Ffôn:**
**07854 721 761** *neu*
**07984 696 202**

## Nod y llyfryn hwn yw rhoi'r wybodaeth ganlynol i chi:

- ✓ Crynodeb o'r llety sydd ar gael.
- ✓ Manylion ynglŷn â sut mae'r broses gwneud cais yn gweithio.

## Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael trwy ein gwefan ar:

**www.uwtsd.ac.uk/cy/llety/abertawe**

Darllenwch y wybodaeth, ac os oes gennych ragor o ymholiadau, cysylltwch â'r Swyddfa Llety.

Ein nod yw ei gwneud mor hawdd â phosibl i chi symud i mewn i'ch llety ac ymgyfarwyddo â'ch amgylchedd newydd.



YOUR RIGHT TO A QUALITY HOME
THE STUDENT ACCOMMODATION CODE



**Bydd byw mewn Neuadd yn rhoi'r cyfle i chi gwrdd â phobl newydd, gwneud ffrindiau newydd a mwynhau ymdeimlad o gymuned!**

Ein nod yn y Drindod Dewi Sant yw ei gwneud mor hawdd â phosibl i chi symud i mewn i'ch llety ac ymgyfarwyddo â'ch amgylchedd newydd.

## Y MANTEISION

Beth sydd wedi'i gynnwys:

- ✓ **Rydyn ni wedi cwmpasu popeth** - Mae eich biliau I GYD wedi'u cynnwys.
- ✓ **Rydyn ni'n eich cadw mewn cysylltiad** - gyda wi-fi AM DDIM.
- ✓ **Rydyn ni yma i chi 24/7** - staff diogelwch i'ch cadw'n saff a diogel.
- ✓ **Rydyn ni'n hyblyg** - gan gynnig cytundebau mwy hyblyg o gymharu â darparwyr Llety Preifa.
- ✓ **Llety arobryn** - mae gennym y Llety gorau yn y Deyrnas Unedig yn ôl pleidlais myfyrwyr. .

## RYDYN NI'N GOFALU AMDANOCH

Mae popeth er eich mwyn chi:

- ✓ **Rydyn ni'n derbyn eich post a'ch parseli** - fel nad oes raid i chi aros i mewn!
- ✓ **Rydyn ni'n ymdrin â'r holl faterion cynnal a chadw** - y cyfan mae angen i chi ei wneud yw rhoi gwybod i ni beth yw'r broblem.
- ✓ **Rydyn ni'n archwilio'n hadeiladau'n rheolaidd** - gan wneud yn siŵr eu bod yn ddiogel ac yn gysurus.
- ✓ **Mae gennym ni wasanaeth cyfeirio rhagorol** - ar gyfer unrhyw anghenion cymorth sydd gennych.
- ✓ **Rydyn ni'n gweithio gydag Undeb y Myfyrwyr a Chynrychiolwyr Myfyrwyr** - i gael adborth rheolaidd am eich profiad mewn neuadd ac rydym yn dysgu o hynny bob tro.

Dros gyfnod pandemig Covid-19, roeddem yn parhau i gefnogi myfyrwyr lle bo modd, o gynnal eu gwasanaeth post a pharseli i faterion cynnal a chadw – roeddem ni yno!

Fe wnaethom ni gefnogi'r holl fyfyrwyr oedd yn hunanynysu mewn Neuaddau, drwy gynnal sgyrsiau wythnosol, trefnu parseli bwyd, a gwneud yn siŵr fod ganddynt bopeth oedd ei angen yn ystod eu cyfnod yn hunanynysu.

Rhoddwyd ad-daliad rhent i'r myfyrwyr hynny oedd yn dal i fod gartref yn ystod y cyfnodau clo. Fe wnaethom ni eu helpu i gael yr eitemau oedd eu hangen arnynt o'u hystafelloedd. Fe wnaethom ni eu cefnogi pan oedd angen iddynt ddychwelyd i'w Neuadd Breswyl.

# LLETY

**Gyda'r Brifysgol wedi'i lleoli mewn man cyfleus yng nghanol y ddinas, mae cyfleusterau siopa, adloniant, chwaraeon a diwylliant, ynghyd â thraeth godidog, o fewn cyrraedd hawdd i'r Drindod Dewi Sant. Mae arfordir ysblennydd Gŵyr ychydig filltiroedd i fyny'r ffordd.**

Gall Swyddfa Llety'r brifysgol eich arwain drwy'r amrywiol ddewisiadau sydd ar gael. Ceir cyfle i ymweld â rhai o'r neuaddau yn ystod diwrnodau agored.



## LLYS GLAS

### Beth rydym yn ei gynnig:

✓ Neuaddau Hunanarlwyo En-suite

✓ 80 Ystafell

✓ Ceginau a Rennir

✓ Cytundeb Trwydded am gyfnod penodol o 36 Wythnos

**Mae Llys Glas yn adeilad 4 llawr ag 80 o ystafelloedd:**

✓ Mae gan bob ystafell gyfleusterau en-suite ac rydym yn darparu gwely, matres, wardrob, bord erchwyn, desg, cadair a silffoedd llyfrau.

✓ Mae tri neu bedwar cegin gymunedol ar bob llawr, ac mae'r Brifysgol yn darparu oergelloedd, rhewgelloedd, tostiwr, tegell, microdon a ffwrn.

### Beth sydd wedi'i gynnwys yn eich Ffioedd:

✓ Biliau Cyfleustodau i Gyd

✓ Dim costau ychwanegol am waith cynnal a chadw a thrwsio.

✓ Patrolau diogelwch 24 awr ac ymateb i argyfwng.

✓ Cymorth gan y Swyddfa Llety.

### Cyfleusterau:

✓ Golchdy – sy'n gweithio â cherdyn - ychwanegwch arian ar eich cerdyn ar-lein.

Mae gan y Brifysgol ystafelloedd yn Llys Glas sy'n amrywio o £125 i £140 yr wythnos, gan ddibynnu ar faint yr ystafell.



## Llys Glas
Ystafelloedd Hunanarlwyo En-suite

| Disgrifiad | Cyfleustodau | Ffioedd | Hyd y Contract |
|---|---|---|---|
| Ystafell Safonol | Cynwysedig | £4,625 y flwyddyn | 37 Wythnos |
| Ystafell Fawr | Cynwysedig | £4,810 y flwyddyn | 37 Wythnos |
| Ystafell Fawr Iawn | Cynwysedig | £5,180 y flwyddyn | 37 Wythnos |

**NEWYDD**
**Cynnig am Gontract Llety Hyblyg**

Rydym yn dod yn fwy hyblyg i gyd-fynd â'ch astudiaethau. Os hoffech fanteisio ar gytundeb hyblyg neu os oes gennych unrhyw gwestiynau, byddem yn eich cynghori i gysylltu â'n Swyddfa Llety cyfeillgar.









# STUDENT ROOST
## - ST DAVIDS


Mae'r llety'n cynnig ystafelloedd stiwdio ac en-suite gydag ystafell ymolchi breifat a chegin a rennir. Mwynhewch y mannau cymdeithasol sydd wedi'u hadnewyddu'n ddiweddar, gan gynnwys campfa, sinema, lle astudio, ystafell gemau a chlos mawr.

Mae cymuned lewyrchus o fyfyrwyr yma ac mae ein tîm cyfeillgar ar y safle 24/7, 7 diwrnod yr wythnos i gefnogi ein preswylwyr. Rydym yn cynnig gwasanaeth derbyn parseli fel na fyddwch yn colli unrhyw bost. Nid oes dim i'w dalu tan i chi gael eich benthyciad myfyrwyr.

**Prisiau en-suite yn dechrau o £129yr wythnos**

**Prisiau stiwdio yn dechrau o £199yr wythnos**

I gael y cynigion a'r prisiau diweddaraf ewch i: **studentroost.co.uk**






### Beth rydym yn ei gynnig:

- ✓ Llety Stiwdio ac En-suite i Fyfyrwyr
- ✓ Dim blaendal
- ✓ Cyrraedd yn gynnar am ddim
- ✓ Deiliadaeth ddeuol am ddim
- ✓ Tenantiaeth hyblyg ar gael

### Beth sydd wedi'i gynnwys yn eich Ffioedd:

- ✓ Biliau Cyfleustodau i gyd
- ✓ Cymorth 24 awr
- ✓ Wi-Fi
- ✓ Yswiriant Cynnwys

### Cyfleusterau:

- ✓ Lle astudio
- ✓ Lolfa Gymunedol
- ✓ Campfa
- ✓ Sinema ac Ystafelloedd Gemau
- ✓ Clos awyr agored









## St Davids
### Llety Myfyrwyr 2021/22*

| Disgrifiad | Cyfleustodau | Ffioedd | Hyd y Contract |
|---|---|---|---|
| En-suite Efydd | Cynwysedig | o £129 yr wythnos | 40 – 51 Wythnos Ar Gael |
| En-suite Efydd a Mwy | Cynwysedig | o £149 yr wythnos | 44 – 51 Wythnos Ar Gael |
| En-suite Arian | Cynwysedig | o £139 yr wythnos | 44 – 51 Wythnos Ar Gael |
| En-suite Arian a Mwy | Cynwysedig | o £155 yr wythnos | 44 – 51 Wythnos Ar Gael |
| En-suite Aur | Cynwysedig | o £159 yr wythnos | 51 Wythnos yn Unig |
| En-suite Aur a Mwy | Cynwysedig | o £179 yr wythnos | 51 Wythnos yn Unig |
| En-suite Platinwm | Cynwysedig | o £169 yr wythnos | 51 Wythnos yn Unig |
| Studio Efydd | Cynwysedig | o £199 yr wythnos | 51 Wythnos yn Unig |

**Yn gywir adeg cyhoeddi.*
*Gall y prisiau newid, ewch i studentroost.co.uk i weld y gost gyfredol bob blwyddyn academaidd.*

# Y Broses Gwneud Cais

## Cwestiynau Cyffredin



### Pryd ddylwn i wneud cais am lety yn Neuaddau'r Brifysgol - Llys Glas?

Gallwch wneud cais am Lety o fis Ionawr ymlaen. Mae'r ddolen gwneud cais ar-lein ar gael ar y wefan llety: **www.uwtsd.ac.uk/cy/llety**

### Sut mae'r broses gwneud cais yn gweithio?

Bydd angen eich Rhif Myfyriwr i gofrestru a gwneud cais.

Os oes gennych unrhyw ofynion neu geisiadau arbennig, yna ychwanegwch y rhain at y ffurflen yn yr adran "nodiadau".

Os cewch unrhyw broblemau, cysylltwch â'r tîm llety **accommodation@uwtsd.ac.uk** a fydd yn gallu eich cynorthwyo.

Os cynigiwyd lle amodol i chi ar eich dewis raglen, cadarnheir eich lle ar y rhaglen cyn gynted ag y bydd Derbyniadau'r Gofrestrfa wedi cael cadarnhad eich bod wedi bodloni telerau'ch cynnig. Wedyn bydd statws eich cynnig ar gyfer y rhaglen yn troi'n un Pendant Diamod. Os penderfynwch y pryd hwn nad oes arnoch angen llety bellach, mewngofnodwch ar y porth Archebu Llety a gwrthod ('Decline') y llety. Bydd hyn wedyn yn canslo eich archeb.

### Pryd fyddaf i'n gwybod manylion yr ystafell a ddyrannwyd i mi?

Gall ymgeiswyr sydd wedi cael cynnig lle pendant diamod ar eu rhaglen ddisgwyl e-bost gan y Swyddfa Llety ym mis Medi sy'n cadarnhau manylion yr ystafell a ddyrannwyd iddynt.

### Nid y Brifysgol yw fy newis cyntaf, erbyn pryd mae angen i fi wneud cais am lety?

Bydd angen i chi wneud cais am lety unwaith y caiff ei gadarnhau mai ni yw'r Brifysgol y byddwch yn dod iddi.

### Rydw i wedi penderfynu mynd i astudio yn rhywle arall...

Bydd angen i chi fewngofnodi i'r Porth Archebu Llety i ganslo eich ystafell.

### Gaf i ddod â char?

Mae'r parcio'n gyfyngedig iawn ar y safle. Rydym yn cynghori myfyrwyr preswyl i beidio â dod â cheir. Fodd bynnag, os hoffech ddefnyddio'r maes parcio bydd angen i chi wneud cais am drwydded.

### Gaf i aros ar y campws yn ystod y gwyliau?

Mae eich cytundeb trwydded yn caniatáu defnyddio eich ystafell am 37 o wythnosau, sy'n cynnwys gwyliau'r Nadolig a'r Pasg. Os oes angen i chi ymestyn eich contract cysylltwch â'r Swyddfa Llety i drafod.

### Sut mae gwneud cais ar gyfer Student Roost – St Davids?

Mewngofnodwch ar **studentroost.co.uk** a gwneud cais yn uniongyrchol gyda Roost.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn defnyddio'r cod **UWTSD2122** yn yr adran Cyfeirnod Asiantaeth (Agency Referral).

**Mae llety preifat ar gael yng nghanol dinas Abertawe.**

I gael rhagor o wybodaeth am yr opsiynau sydd ar gael, cysylltwch â'r Tîm Llety trwy e-bostio ;

**accommodation@uwtsd.ac.uk**



### Ymgeiswyr Llwyddiannus

Caiff ymgeiswyr eu cyfeirio at dudalen Facebook a fydd yn eu galluogi i ddod i adnabod eu cyd-fyfyrwyr.

Bydd y trefniadau symud i mewn yn cael eu hanfon atoch drwy e-bost ddechrau mis Medi.

Cysylltwch â'r Swyddfa Llety am unrhyw wybodaeth bellach.

**accommodation@uwtsd.ac.uk**

**07984 696 202**

# Map Lleoliad

CAMPYSAU ABERTAWE

Mae **Llys Glas** wedi'i leoli mewn man delfrydol yng nghanol y ddinas, o fewn cyrraedd hawdd i gyfleusterau **Coleg Celf Abertawe**.

**Llys Glas** i **Gampws SA1:**
Tua 20 munud ar droed.

**St Davids** i **Gampws SA1:**
Tua 18 munud ar droed.

**St Davids** i **Llys Glas** a **Choleg Celf Abertawe:**
Tua 10 munud ar droed.

1 **CAMPWS BUSNES ABERTAWE**

2 **ADEILAD ALEX**
Coleg Celf Abertawe

**ADEILAD Y BBC**
Coleg Celf Abertawe

**LLYS GLAS**
Stiwdio Celfyddydau Perfformio
Llety Myfyrwyr
Y Swyddfa Llety
Gwasanaethau Myfyrwyr
Undeb y Myfyrwyr
Profiadau Myfyrwyr
Y Gofrestrfa
Cyllid

3 **DINEFWR**
Coleg Celf Abertawe

4 **CANOLFAN DYLAN THOMAS**


5 **TECHNIUM 2**

6 **TECHNIUM 1**
Gwasanaethau Ymchwil, Arloesi a Mentergarwch (RIES)

7 **CAMPWS SA1**

**Y FFORWM**
Llyfrgell
Mannau Addysgu
Desg Wasanaeth TG
Lapsafe – Benthyciadau Gliniaduron

**IQ**
Adeilad Academaidd
Gwasanaethau Myfyrwyr
Arlwyo
Mannau Addysgu
Mannau Astudio
Desg Wasanaeth TG
Lapsafe - Benthyciadau Gliniaduron
Ystafelloedd Cawod
Canolfan Arloesi - Adeiladwaith Cymru



# Symud i Abertawe?

Dyma rai pethau gwych mae'n bosibl y byddech yn hoffi eu gwybod...




Mae Stadiwm Liberty, Abertawe yn gartref i dîm pêl-droed yr Elyrch a thîm rygbi'r Gweilch. Mae'n stadiwm 21,000 o seddi sy'n cynnal digwyddiadau chwaraeon a cherddoriaeth fyw arbennig.



## PENRHYN GŴYR

**Yr ardal gyntaf o Harddwch Naturiol Eithriadol ym Mhrydain (AONB)**

Mae'r Gŵyr heb os yn enwog am ei thraethau bendigedig, gydag 19 i ddewis ohonynt. O fewn cyrraedd hawdd ar drafnidiaeth gyhoeddus ac mewn car, mae nifer o ymwelwyr yn mynd am dro hamddenol ar hyd y prom o Abertawe i'r Mwmbwls, neu i'r rhai mwy beiddgar, mae'r rhan fwyaf o'r traethau'n addas ar gyfer chwaraeon dŵr megis syrffio, corff-fyrddio, syrffio barcud a chaiacio.

Bae'r Tri Chlogwyn. Llun: Sammy-Leigh, Unsplash.com

## CRWYDRO CANOL Y DDINAS

1 **Mae Stryd y Gwynt a'r Uplands** yn enwog iawn am eu bariau a bwytai. Wedi'i lleoli yng nghanol y ddinas, mae Stryd y Gwynt yn lle gwych ar gyfer cael clonc gyda ffrindiau ar ôl diwrnod hir o ddarlithoedd neu siopa.

2 **Orielau Celf**
Mae llu o orielau a lleoliadau sy'n cynnig digwyddiadau celf a diwylliant yn Abertawe. O Oriel Mission yn ardal y marina, i orielau annibynnol ar hyd y Stryd Fawr, a'r Glynn Vivian. A'r cyfan yn cysylltu â'n campws yn SA1 a champws Coleg Celf Abertawe.

3 **Sinemâu ac Adloniant Byw**
Mae gan Abertawe lawer o sinemâu a lleoliadau ar gyfer adloniant byw. Gerllaw Stryd y Gwynt a chanolfan Parc Tawe fe welwch enwau mawr yr Odeon a Vue. Cinema&Co yw ein sgrin annibynnol leol, sy'n cynnal amrywiaeth o nosweithiau ffilm a digwyddiadau elusen byw. Gallwch ymweld â Theatr y Grand a Theatr Volcano ar gyfer perfformiadau a chomedi, ac fel arfer, pan fydd y tywydd yn braf, cynhelir nifer o ddigwyddiadau cerddoriaeth fyw ym Mharc Singleton dros yr haf.

**YN OGYSTAL MAE GENNYM ARENA GYDA 3,500 O SEDDI FYDD YN AGOR YNG NGHANOL Y DDINAS YN 2021 – CADWCH LYGAD AM RAGOR O WYBODAETH!**







## RHAID I CHI...

**Roi cynnig ar Hufen Iâ Joe's, yn eu siop yn Sain Helen neu'r Mwmbwls.**



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

@StudyUWTSD @UWTSD

UWTSD

drindoddewisant